Prentisiaethau
Apprenticeships

AR GYFER BUSNES
CAMBRIA
FOR BUSINESS

Canllaw Bychan i Brentisiaethau

2022/23

BETH YW PRENTISIAETH?

Mae Prentisiaethau yn rhoi'r cyfle i chi weithio i gyflogwr, ennill cyflog a chyflawni cymwysterau wrth ennill sgiliau a phrofiad gwerthfawr yn y gweithle. Maen nhw'n datblygu eich gwybodaeth a'ch gallu ymarferol i wneud eich gwaith yn effeithiol.

Byddwch yn ennill cymwysterau a gydnabyddir gan y diwydiant, profiad gwaith helaeth, a chymwysterau rhifedd, llythrennedd a llythrennedd digidol (ar gyfer cyrsiau penodol).

Mae prentisiaethau yn ffordd wych i ddechrau ar eich gyrfa ac agor y drws i ragolygon cyflogaeth cyffrous!

PRIF FUDDION

- Ennill cyflog
- Ennill cymwysterau cydnabyddedig
- Cael hyfforddiant a sgiliau wrth weithio
- Cael gwyliau gyda thâl
- Dechrau ar eich gyrfa
- Cyfle i symud ymlaen i brentisiaethau lefel gradd
- Buddion coleg gan gynnwys cerdyn myfyriwr a gostyngiadau
- Ni fyddwch mewn dyled ar ôl i chi gwblhau eich prentisiaeth o'i gymharu â mynd i'r brifysgol

Prentisiaethau
Apprenticeships

CANLLAW LEFELAU PRENTISIAETHAU CAMBRIA

GALL COLEG CAMBRIA GYNNIG YSTOD EANG O BRENTISIAETHAU LEFEL 2 - LEFEL 6

LEFEL 2

Prentisiaethau Sylfaen Lefel 2

Mae Prentisiaid Sylfaen yn astudio tuag at gymwysterau sydd gyfwerth â 5 TGAU neu NVQ Lefel 2 ac yn aml maen nhw'n mynd ymlaen

LEFEL 3

Prentisiaethau Lefel 3

Mae prentisiaid yn ennill sgiliau gwerthfawr yn y gwaith, wrth astudio tuag at gymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol sydd gyfwerth â 5 TGAU, 2 Safon Uwch neu NVQ Lefel 3.

LEFELAU 4 AC UWCH

Prentisiaethau Uwch a Phrentisiaethau Gradd Lefel 4 ac uwch.

Mae unigolion yn gweithio tuag at gymhwyster sy'n gyfwerth â HND / HNC, gradd sylfaen neu radd anrhydedd.

PEIDIWCH Â CHYMRYD EIN GAIR NI...

JOSHUA BARNETT

Enillydd Gwobr Myfyrwyr - Prentis y Flwyddyn

"Trwy gydol fy Mhrentisiaeth, mae Coleg Cambria wedi dangos diddordeb brwd yn fy llesiant a fy niogelwch personol ac maen nhw bob amser ar gael i roi cymorth.

"Rydw i wedi mynd i lawer o nosweithiau agored i hyrwyddo'r Prentisiaethau rydyn ni'n eu cynnig yn Kellogg's. Mae'r myfyrwyr yn dangos diddordeb gwirioneddol yn yr hyn rydyn ni'n ei wneud yn y diwydiant ac mae ganddyn nhw awydd mawr i ddysgu. Mae myfyrwyr Coleg Cambria yn dystiolaeth o'u llwyddiant, ac mae'r coleg yn creu arweinwyr diwydiant y dyfodol.

"Mae Coleg Cambria wedi fy mharatoi ar gyfer y gweithle yn ogystal ag addysg uwch gan fy mod wedi rheoli prosiect 'Smart Factory' a gweithio ochr yn ochr â phrif brosiectau cyfalaf eraill, i gyd wrth fod yn Brentis! Mae hyn yn profi, ni waeth pa lefel rydych chi arni, gallwch gyrraedd unrhyw le wrth ddangos diddordeb brwd a pharodrwydd i ddysgu.

"Roeddwn i wrth fy modd pan dderbyniais y wobr Prentis Peirianneg Drydanol y Flwyddyn yn y Seremoni Gwobrau Myfyrwyr. Roedd tîm Coleg Cambria yn hynod o drefnus ac roedden nhw wedi gwneud i'r lleoliad edrych yn anhygoel, roedden nhw wedi gwneud ymdrech aruthrol! Doeddwn i ddim yn ei ddisgwyl o gwbl pan wnes i dderbyn Gwobr Prentis y Flwyddyn ar ddiwedd y noson! Mae hyn wedi gwneud fy ymdrech a fy agwedd benderfynol dros y tair blynedd ddiwethaf yn werth chweil!"

OLIVIA CRABTREE

Prentisiaeth Sylfaen mewn Therapi Harddwch, House of Beauty

"Mi wnes i ddewis prentisiaeth gyda Choleg Cambria i ennill profiad a magu fy hyder.

"Cefais fy annog gan fy asesydd i gystadlu ar gyfer WorldSkills UK, ac roeddwn i'n bryderus a nerfus am hynny i ddechrau. Ond gyda'r cymorth gwych a gefais gan staff Cambria trwy gydol y broses a fy astudiaethau, enillais fedal aur mewn Gwasanaethau Ewinedd. Roedd yn wych ennill ac roedd yn brofiad gwych.

"Rydw i wedi cyflawni fy NVQ mewn Gwasanaethau Ewinedd ac rydw i wedi dewis Coleg Cambria i gwblhau fy nghymhwyster Lefel 2 mewn Therapi Harddwch. Dyma'r unig goleg sy'n gallu darparu'r hyn rydw i ei angen, ac mae'r cymorth rydw i wedi ei gael gan fy asesydd wedi fy helpu i lwyddo.

"Rydw i rŵan yn gobeithio symud ymlaen yn y diwydiant harddwch, ac rydw i'n edrych ymlaen at y dyfodol."

RYDYM YN CYNNIG PRENTISIAETHAU YN Y RHAN FWYAF O FEYSYDD GALWEDIGAETHOL, GAN GYNNWYS:

- Adeiladu ac Adeiladau
- Amaethyddiaeth
- Arwain Timau
- Blodeuwriaeth
- Ceffyleg
- Cerbydau Modur
- Cyllid (AAT)
- Cyngor ac Arweiniad
- Cynorthwyo Addysgu a Dysgu
- Dadansoddi Data
- Garddwriaeth
- Glanhau
- Gofal Anifeiliaid
- Gofal Plant
- Gwaith Chwarae
- Gwaith Warws a Logisteg
- Gwasanaethau i Gwsmeriaid
- Gweinyddu Busnes
- Gweithgynhyrchu
- Gweithgynhyrchu Bwyd
- Gweithrediadau Hamdden
- Gwneuthuro a Weldio
- Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Lletygarwch ac Arlwyo
- Manwerthu
- Nyrsio Milfeddygol
- Peirianneg (disgyblaethau amrywiol)
- Rheoli Cyfleusterau
- Technegwyr Gwyddoniaeth a Labordai
- TG
- Trin Gwallt
- Therapïau Sba a Harddwch

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn prentisiaeth, anfonwch e-bost at employers@cambria.ac.uk neu ffoniwch ni ar 0300 30 30 006

AR GYFER BUSNES
CAMBRIA
FOR BUSINESS

OES GENNYCH CHI GWESTIWN?

FAINT FYDDA I'N EI ENNILL?

Byddwch yn cael eich talu yn ôl canllawiau talu cenedlaethol.

FAINT O AMSER MAE'N EI GYMRYD I GWBLHAU PRENTISIAETH?

Mae hyd prentisiaeth yn dibynnu ar y math o gymhwyster a'r lefel. Gall prentisiaeth gymryd rhwng 1 a 4 blynedd i'w chwblhau.

SUT YDW I'N GWNEUD CAIS AM BRENTISIAETH?

Mae cyflogwyr yn hysbysebu cyfleoedd Prentisiaeth ar eu sianeli eu hunain a/neu trwy Wasanaeth Paru Prentisiaeth Gyrfa Cymru a Siop Swyddi Cambria, ewch i www.cambria.ac.uk/job-shop

BETH YW'R GOFYNION MYNEDIAD AR GYFER PRENTISIAETH?

Rhaid i chi fod: yn 16 oed neu'n hŷn, yn gweithio 16 awr o leiaf, ac yn gweithio 51% o'r amser yng Nghymru yn ystod cyfnod eich prentisiaeth. Ni ddylech fod mewn addysg llawn amser.

AR GYFER BUSNES
CAMBRIA
FOR BUSINESS

CYSYLLTWCH Â NI

0300 30 30 006
www.cambria.ac.uk